

# Y Ras Fawr

Roderick Hunt Alex Brychta

Coeden Ddarllen Rhydychen



DRAKE





Roedd Nain eisiau car newydd.
Roedd Cad a Dids yn drist.
Roedden nhw'n hoffi hen gar Nain.




Roedd Nain yn hoffi'r car hwn.
Roedd Cad yn poeni.
Roedd yn gar rhy gyflym i Nain.






Prynodd Nain y car cyflym.
Gyrrodd y car adref.
'O na!' meddai Dad.





Roedd Mam yn flin efo Nain.
'Mae'r car yna'n rhy gyflym,' meddai hi.
Roedd Nain yn torri ei chalon.





Disgleiriodd yr allwedd hud.
Aeth yr hud â Cad a Dids.
Aeth â Nain hefyd.




Aeth yr hud â nhw i ras.
'Dowch!' meddai Nain.
'Dyma fy nghar newydd i.'




'O Nain!' meddai Cad.
'Beth ddywedai Mam?'
'Wfft i Mam!' meddai Nain.




Cafodd Nain hyd i fap.
Edrychodd pawb arno.

Edrychodd dyn ar Nain.
Dyn drwg oedd o.
Y Barwn oedd ei enw.




Edrychodd y plant ar y Barwn.

Edrychodd y Barwn ar y plant.

'Ha!' meddai'r Barwn. 'Enillwch chi ddim.'






Newidiodd dyn yr arwyddbost.

'Ha! Ha!' meddai'r dyn.


'Nawr y Barwn fydd yn ennill!'




Chwythodd y map i ffwrdd.
'Pa ffordd?' gofynnodd Nain.
Wyddai Dids ddim.



Welson nhw mo'r arwyddbost.
Trodd Nain i'r chwith.
'Grrr!' meddai'r dyn.




Cyrhaeddon nhw'r mynyddoedd.
'Arafwch,' gwaeddodd Cad.
'Na. Mae hyn yn hwyl,' meddai Nain.







Rhoddodd y Barwn olew ar y ffordd.
'Dyna'r ateb,' meddai.
'Bydd hynna yn eu stopio nhw.'



Sglefriodd y car ar yr olew.
Drylliodd y ffens ac
aeth i lawr y mynydd.




'Daliwch eich gafael!' gwaeddodd Nain.
'O na!' gwaeddodd Cad.
'O help!' gwaeddodd Dids.



Roedd y Barwn yn dilyn.
Roedd Nain ar y blaen.
Roedd hi'n ennill y ras.



Edrychodd Cad yn ôl.
'Brysiwch Nain,' gwaeddodd.



‘Pa ffordd?’ galwodd Nain.


Wyddai Dids ddim.

Trodd Nain ar bont.



Roedd y bont yn beryglus.


‘Ddim y ffordd yma!’ gwaeddodd Dids.



Torrodd y bont.

Disgynnodd car y Barwn i'r afon.







Enillodd Nain y ras.

'Hwrê!' gwaeddodd Cad a Dids.

Disgleiriodd yr allwedd hud.




Aeth Nain â'r car cyflym yn ôl.
Prynodd gar bychan.
'Gwnaiff hwn y tro,' meddai hi.



Argraffwyd yng Nghymru

# Y Ras Fawr

Coeden Ddarllen Rhydychen

Cam 5 Rhagor o Storïau Pecyn A

Stori gan
**Roderick Hunt**

Trosiad Cymraeg gan
**Emily Huws**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

**Storïau yng Ngham 5:**

**Storïau boncyff**

1 Yr Allwedd Hud
2 Antur gyda'r Môr-ladron
3 Coeden y Ddraig
4 Nain
5 Antur yn y Castell
6 Y Pentref yn yr Eira

**Rhagor o Storïau Pecyn A**

**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Y Peth'ma
Antur dan y Ddaear
Eli Diflannu
Dydi o Ddim yn Deg!
Y Ras Fawr
Anghenfil o Jôc

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1993
ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 1999

DRAKE

ISBN 0 86 174163 3

ISBN 0-86174-163-3

9 780861 741632